EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
BRO'R WENYNEN, GWENT 2027

Cystadleuaeth 86 – Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC)

Problemau Bach, Myrddin ap Dafydd

Rhaid hepgor Pennill 3



Mae Dad yn chwerthin wrth stopio'r car
A gweld fod 'na byncjar bach;
Aiff allan i'w newid yn y glaw –
Yn falch o gael awyr iach!

Mae Mam yn gwenu wrth agor drws
Y popty cyn te prynhawn;
Wrth weld y dorth yn golsyn du
Mae'n dweud bod ei gwaelod hi'n iawn!

Mae Musus Huws, ein hathrawes ni,
Yn giglo wrthi ei hun
Pan gollaf baent dros Asesiad y Sir –
Gan ddweud bod hi'n hoffi'r llun!

Mae Dewyrth Dei yn gweiddi "Hwrê!"
Pan mae'r bêl yn chwalu'i dŷ gwydyr
Gan ddiolch na fydd dim rhaid iddo'n awr
Lanhau'r ffenestri budur.

Y rhai sy'n gweld y golau gwyn
Er bod hi'n nos o'n cwmpas ni,
Na wnân nhw sŵn mawr am broblemau bach –
Y nhw yw fy arwyr i.

